

Rhwydweithio Cymdeithasol - Canllaw i Rieni



Bwriad y llyfryn hwn yw tynnu sylw rhieni a phlant at faterion pwysig sy'n gysylltiedig â diogelwch ar y rhyngwyd wrth ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae gwasanaethau defnyddwyr rhyngweithiol a rhwydweithio cymdeithasol yn cynnig nifer o gyfleoedd cadarnhaol i blant ac oedolion gyfathrebu, rhyngweithio a rhannu profiadau a diddordebau.

Mae'r safleoedd yn cynnig cyfleoedd i

- Sgwrsio
- Chwarae gemau
- Rhannu ac edrych ar ffotograffau a fideos
- Blogio
- Rhannu proffil ar-lein

Fodd bynnag, mae'n bwysig defnyddio'r safleoedd hyn mewn ffordd addas.

Dylid cymryd pob cyfeiriad at rieni yn y llyfryn hwn i gynnwys gwarcheidwaid ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhieiniol dros blentyn/berson ifanc.

Diogelu Eich Hunan, Diogelu Eich Plant

★Nodwch y cyfyngiadau oedran perthnasol i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

- Facebook 13+
- Bebo 13+
- MySpace 14+
- Club Penguin 8 – 14

★Sicrhewch fod eich plant yn defnyddio cyfrifiaduron a gliniaduron mewn ystafell deuluol lle mae'n bosibl i chi eu monitro - ddim yn yr ystafell wely.

★Cofiwch, mae'n bosibl i blant gael mynediad i'r rhyngrwyd trwy eu ffonau symudol a dyfeisiau chwarae gemau (e.e. Nintendo Wii, X Box, teledu rhyngweithiol).

★Gosodwch reolau eglur - ystyriwch lunio cytundeb teulu ar gyfer diogelwch ar-lein.

★Oherwydd bod y rhyngrwyd yn anhysbys, mae cyfathrebu ar-lein yn gwneud i blant ac oedolion deimlo'n fwy rhydd i wneud pethau ar-lein na fyddent yn ei wneud yn unrhyw le arall.

★Siaradwch â'ch plant ynghylch y ffordd maen nhw'n defnyddio'r rhyngrwyd – gofynnwch iddynt rannu beth maen nhw wedi bod yn ei wneud gyda chi.

★Trafodwch ac edrychwch ar yr ystafelloedd sgwrsio a'r gwefannau negeseua gwib maen nhw'n eu defnyddio.

★Yn aml, mae pobl yn credu bod y gwefannau hyn yn lleoedd preifat, mewn ffordd debyg i ddyddiadur personol a llyfr cyfeiriadau. **Helpwch eich plant i ddysgu pa wybodaeth ddylai fod yn breifat** e.e. cyfeiriadau, rhifau ffôn ac enw eu hysgol.

★**Defnyddiwch osodiadau preifatrwydd i gyfyngu pwy sy'n gallu cael mynediad at eich proffiliau a phwy sy'n gallu cyfrannu atynt.** Dylid cyfyngu proffiliau i bobl adnabyddedig y gellir ymddiried ynddynt.

★**Cofiwch, mae'r rhan fwyaf o wefannau wedi'u rhagosod i 'broffil cyhoeddus' – mae angen i chi sicrhau bod y gosodiadau yn cael eu newid i breifat.**

★Rhannwch ddelweddau a gwybodaeth rydych yn hapus i'w rhannu yn unig.

★Byddwch yn ymwybodol ei bod yn hawdd rhannu unrhyw wybodaeth neu ddelweddau sy'n cael eu postio ar-lein a'i bod yn amhosibl eu hawlio nhw'n ôl.

★Nid yw'n dderbyniol i rieni/plant wneud sylwadau anaddas am sefydliadau ysgol, aelodau staff neu aelodau o gymuned yr ysgol ar unrhyw safle rhwydweithio ar-lein (e.e. Facebook).

★Byddwch yn ymwybodol bod angen cael caniatâd cyn postio delweddau o bobl eraill ar-lein.

★Bwlio neu aflonyddu sy'n digwydd ar-lein yw seiberfwlio. Mae'n gallu digwydd trwy e-bost, neges destun, gêm ar-lein, neu sylwadau ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

★Er nad oes yna drosedd benodol o'r enw seiberfwlio, mae'n bosibl ystyried y gweithgareddau yn droseddau.

★**Dylid adrodd am unrhyw achosion o seiberfwlio yn syth i'r heddlu ac/neu i'r ysgol.**

★**Cofiwch gallwch ddefnyddio'r botwm 'adrodd cam-drin' ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol os gwelwch unrhyw beth sy'n eich gwneud chi'n anghysurus.**

★Gellir dilyn trywydd unrhyw weithgareddau ar y rhyngrwyd yn ôl at y person cyfrifol.

Mwy o wybodaeth

<http://www.ceop.gov.uk/> <http://www.thinkuknow.co.uk> <http://www.safesocialnetworking.com/> www.dcsf.gov.uk/ukccis/downloads/socialnetworking.pdf
www.bullying.co.uk
www.kidsmart.org.uk
www.becta.org.uk
www.childnet-int.org
<http://www.digizen.org.uk/>
http://esafety.ngfl-cymru.org.uk/vtc/esafety/web_leaflet_english_master.pdf
<http://www1.k9webprotection.com/>

grmorgan@carmarthenshire.gov.uk

Greg Morgan

Swyddog Cysylltiol Gwella Ysgolion/Associate School Improvement Officer,
AALI Sir Gar/Carmarthenshire LEA,

The content of this booklet has been reproduced with the kind permission of
Pembrokeshire LA